Clwb Criced Tal-y-bont

Ail ffurfiwyd Clwb Criced Tal-y-bont ym 1982 wedi bwlch o oddeutu tri deg mlynedd, wedi i Maes-y-deri gael ei adeiladu ar y maes criced blaenorol. Bwriad yr aelodau oedd cystadlu yng Nghynghrair Criced Gyda'r Nos Ardal Aberystwyth ac yr oedd yn braf bod rhai o'r aelodau hŷn yn cofio chwarae i'r Clwb gwreiddiol. Wrth i'r diddordeb a'r uchelgais gynyddu, ymunodd y Clwb â'r Adran Wrth Gefn Cynhadledd Gorllewin Cymru gan chwarae yn y Gynghrair Sadwrn ac ymhen amser aethant ymlaen i'r Adran Gyntaf.

Cymerwyd rhan yng nghystadlaethau Cymru a Chwpan Pentref Cenedlaethol gyda llwyddiant cyfyngedig, er bod uchafbwynt pan ymddangosodd llun o faes criced y Clwb yn Felinfach ar glawr cylchgrawn cystadleuaeth Cwpan Criced Pentref Cenedlaethol. Uchafbwynt arall oedd erthygl yn *The Times* am y Clwb yn cynnwys merch yn y tîm, y gyntaf yn y gystadleuaeth, a chwaraeodd ran bwysig yn y 'rhedeg allan' tyngedfennol a arweiniodd at Dal-y-bont yn ennill gem Gwpan.

Parhaodd y Clwb i gynnwys tîm yn y gynghrair gyda'r nos ac yn wir am ychydig

Tal-y-bont Cricket Club

Tal-y-bont Cricket Club was re-formed in 1982 after a gap of about thirty years, Maes-y-Deri having been built upon the previous cricket pitch. The intention of the members was to compete in the Aberystwyth District Evening Cricket League and it was nice that a couple of the older members remembered playing for the previous incarnation of the Club. As interest and ambitions grew the Club joined the Reserve Division of the West Wales Conference playing in the Saturday league and in time progressed to the Premier Division.

Welsh and National Village Cup competitions were also entered, albeit with limited success, although a highlight was the appearance of a picture of the Club's ground at Felinfach on the cover of the National Village Cricket Cup competition magazine. Another highlight was a write-up in *The Times* for the Club playing the first woman cricketer in the competition who was instrumental in a crucial run-out leading to Tal-y-bont winning a Cup game.

The Club continued to field a team in the evening league and indeed for a few years managed to field two teams and this

Y Tîm 1982. *The 1982 team.*

flynyddoedd llwyddodd i gynnwys dau dîm ac eleni, wedi hyfforddi ysgolion cynradd lleol am rai blynyddoedd, mae tîm o dan 14 oed o Dal-y-bont hefyd yn cymryd rhan yng nghynghrair Gorllewin Cymru o dan 14 oed. Mae peth gobaith eleni y ffurfir cynghrair o dan 11 oed. Yn y gorffennol cafodd tîm o Ysgol Gynradd Tal-y-bont eu coroni yn Bencampwyr Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru ond hyd yma ychydig o gystadlu rheolaidd a fu ar y lefel hon.

Mae'r tîm hwn ar hyn o bryd yn chwarae gemau cartref ar y maes a ddatblygwyd yn Felinfach gyda chaniatâd caredig y perchenogion John a Jill Roberts. Yn wreiddiol datblygwyd maes yn Cae Mawr, Llandre ond yr oedd angen prydles o 21 mlynedd o leiaf er mwyn medru gwneud cais am gymorth grant ac felly symudodd y Clwb i Felinfach lle, gyda chymorth Sportlot, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ac eraill, drwy brynu peiriannau a chyfarpar, ffurfiwyd maes criced da iawn drwy waith caled yr aelodau.

Cynhelir prif weithgareddau codi arian y Clwb yn sioe Tal-y-bont lle y bu'r Clwb Criced ers rhai blynyddoedd yn rhedeg stondin cnau coco a ras hwyaid. Hefyd yn y gorffennol cynhaliwyd cystadleuaeth saith-bob-ochr yn Aberystwyth.

Ar gyfer y dyfodol, y mae tri aelod o'r Clwb yn dysgu bod yn hyfforddwyr eleni a gobeithiwn gyda phwyslais cynyddol yn genedlaethol yn cael ei roi ar ddatblygu criced ieuenctid a chyfleoedd cynyddol i ieuenctid chwarae criced yn yr ardal hon, y bydd Clwb Criced Tal-y-bont yn ffynnu ar bob lefel am nifer o flynyddoedd i ddod.

Simon Lloyd-Williams
Cadeirydd, Clwb Criced Tal-y-bont

year, after having coached local primary schools for some years, a Tal-y-bont under 14 team is also being entered in the West Wales under 14 league. There is also some hope this year that an under 11 league will be formed. A Tal-y-bont Primary school team has in the past been crowned Welsh Champions at the Royal Welsh show but up to now there has been little by way of regular competition at this age level.

The senior team currently plays home fixtures on the ground it has developed at Felinfach with the kind permission of the landlords John and Jill Roberts. A ground was initially developed at Cae Mawr, Llandre but needing a lease for at least 21 years to be able to apply for grant aids the Club moved to Felinfach where, with the help of Sportlot, Ceredigion County Council, Ceulanamaesmawr Community Council and others, machinery and equipment purchases have enabled a very good wicket to be produced by the hard work of the members.

The Club's main fundraising activities take place at Tal-y-bont show where for some years the Cricket Club has run a coconut shy and duck race. Also in the past a seven-a-side competition has been run in Aberystwyth.

For the future, three Club members are training to become coaches this year and we hope that with the increasing national emphasis being placed on youth cricket development and the increasing opportunities for youth cricket in this area that Tal-y-bont Cricket Club will prosper at all levels for many years to come.

Simon Lloyd-Williams
Chairman, Tal-y-bont Cricket Club